Erthygl 2 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: rhaid amddiffyn plant rhag pob math o wahaniaethu. Rhaid peidio â gwahaniaethu yn erbyn plant (e.e. ar sail oedran, hil, iaith, hunaniaeth rhywedd, crefydd neu anabled) wrth ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau iechyd. Os oes gan blant gyflwr iechyd meddwl neu anghenion dysgu ychwanegol, ni ddylent fod yn destun unrhyw wahaniaethu. Rhaid i blant sydd fwyaf agored i niwed, er enghraifft, plant mewn gofal, yn nalfa'r heddlu, plant ar eu pen eu hunain neu blant digartref gael eu hamddiffyn bob amser ac y darperir gofal a chymorth iechyd meddwl iddynt.

Erthygl 3 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Ym mhob gweithred a phenderfyniad sy'n ymwneud â phlant, rhaid i les pennaf y plentyn fod yn brif ystyriaeth.

Erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Rhaid i lywodraethau wneud popeth i weithredu'r hawliau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i'r graddau mwyaf posibl o'r adnoddau sydd ar gael.

Erthygl 6 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Rhaid i lywodraethau gydnabod bod gan bob plentyn hawl i fyw a rhaid iddynt sicrhau eu bod yn gallu goroesi a datblygu i'r graddau mwyaf posibl.

Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Mae gan blant yr hawl i fynegi eu safbwyntiau ar bob mater sy'n effeithio arnynt, a dylid rhoi ystyriaeth

ddyladwy i'w safbwyntiau yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn.

Erthygl 19 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Mae gan blant yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag pob math o drais corfforol neu feddyliol, anafiadau, camdriniaeth, esgeulustod neu ecsbloetio, gan gynnwys drwy ddarparu rhaglenni cymdeithasol sy'n cynnig cymorth angenrheidiol i blant ac i'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Erthygl 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Mae gan bob plentyn yr hawl i'r safon iechyd uchaf y gellir ei chyrraedd ac i wasanaethau gofal iechyd sy'n eu helpu i wireddu hynny, gan gynnwys iechyd meddwl.

Erthygl 27 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Dylai llywodraethau sicrhau bod gan bob plentyn safon byw sy'n ddigonol i'w alluogi i ddatblygu'n llawn – yn gorfforol, yn feddyliol, yn emosiynol, yn ysbrydol ac yn gymdeithasol. Tra'n cydnabod y cyfrifoldebau sydd gan rieni, rhaid i lywodraethau sicrhau eu bod yn cynnig cymorth i deuluoedd i sicrhau bod anghenion hanfodol plant yn cael eu diwallu - yn arbennig maeth, iechyd, dillad, tai, addysg a diogelwch.

Erthygl 37 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Ni ddylai unrhyw blentyn orfod dioddef triniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol. Ni ddylai plant sy'n troseddu gael eu carcharu am oes. Dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y dylid arestio, cadw neu garcharu plentyn ac am y cyfnod byrraf priodol. Dylid trin pob plentyn sy'n cael ei amddifadu o'i ryddid gyda thrugaredd ac mewn ffordd sy'n

ystyried ei anghenion. Dylid cadw plant yn y ddalfa ar wahân i garcharorion sy'n oedolion ac mae ganddynt yr hawl i gadw mewn cysylltiad â'u teulu. Mae gan bob plentyn sy'n cael ei amddifadu o'i ryddid yr hawl i gael cyngor cyfreithiol a chymorth arall prydlon.

Erthygl 39 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Rhaid i lywodraethau gymryd pob mesur priodol i hybu adferiad corfforol a seicolegol ac ailintegreiddiad cymdeithasol plentyn sydd wedi dioddef unrhyw fath o esgeuluso, ecsbloetio neu gam-drin; arteithio neu unrhyw ffurf arall ar driniaeth neu gosb sy'n

greulon, yn annynol neu'n ddiraddiol; neu gan wrthdaro arfog. Rhaid i adfer ac ailintegreiddio o'r fath ddigwydd mewn amgylchedd sy'n meithrin iechyd, hunan-barch ac urddas y plentyn.

Erthygl 42 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Mae'n rhaid i lywodraethau wneud Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn hysbys i blant ac oedolion. Yna mae plant wedyn mewn sefyllfa well i arfer eu hawliau mewn perthynas ag iechyd meddwl ac mae oedolion yn gallu grymuso plant yn well i'w harfer.

Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ei [Sylw Cyffredinol Rhif 15](#) ar hawl y plentyn i'r safon iechyd uchaf y gellir ei chyrraedd, yn ei wneud yn glir bod rhaid i'r holl wasanaethau iechyd (mae hyn yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl) wastad fod ar gael, yn dderbyniol, yn hygyrch ac o ansawdd uchel:

Argaeledd gwasanaethau: dylai fod digon o gyfleusterau, nwyddau, gwasanaethau a rhaglenni iechyd plant gweithredol.

Hygyrchedd gwasanaethau: dylai gwasanaethau fod yn hygyrch yn ariannol a chorfforol, heb wahaniaethu.

Derbynioldeb gwasanaethau: rhaid i gyfleusterau, nwyddau a gwasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd gael eu cynllunio mewn ffordd sy'n ystyried yn llawn ac yn parchu moeseg feddygol yn ogystal ag anghenion, disgwyliadau, diwylliannau, safbwyntiau ac ieithoedd plant, gan roi sylw arbennig i grwpiau penodol, lle bo angen.

Ansawdd gwasanaethau: dylai cyfleusterau, nwyddau a gwasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd fod yn briodol yn wyddonol ac yn feddygol ac o ansawdd da.

Mae [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru](#) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf roi sylw dyladwy i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Serch hynny, nid yw byrddau iechyd a gwasanaethau iechyd yng Nghymru o dan yr un ddyletswydd.

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn anelu at wneud i gyrff cyhoeddus weithredu'n fwy cynaliadwy, gan gynnwys dangos sut maen nhw'n gwneud y mwyaf o'u cyfraniad at 'Gymru iachach' a 'Chymru fwy cyfartal'. Nid yw'r Amcanion Llesiant serch hynny yn gwneud yr hawl i iechyd yn hawl gyfreithiol.

Bwriad [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018](#) a'r [Rhaglen Drawsnewid](#) gysylltiedig yw cefnogi dull mwy cydgysylltiedig o fodloni anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, os yw corff iechyd yn penderfynu bod triniaeth neu wasanaeth CAMHS y gallent eu darparu yn debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc, yna bydd CAMHS yn sicrhau'r ddarpariaeth honno.

Yn 2021 gwreiddiodd [Deddf Cwricwlwm ac Aseu \(Cymru\)](#), ddull ysgol gyfan at iechyd meddwl plant.

7. Polisi

Yn 2009, bwriad yr adolygiad i [Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Emosiynol ac Iechyd Meddwl](#) oedd sefydlu a oedd gwasanaethau yn diwallu anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru yn ddigonol. Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad ar y cyd, wedi'i gefnogi gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Casgliad cyffredinol yr adolygiad oedd bod gwasanaethau yn methu nifer o blant a phobl ifanc. [Chwalu'r Rhwystrau: Ateb y Sialensiau – Cymorth Gwell ar gyfer Plant a Phobl Ifanc gydag Anghenion Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl \(2010\)](#) oedd cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r adroddiad hwn. Yn 2012, cyhoeddwyd [Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl](#) (strategaeth bob oed) gan Lywodraeth Cymru.

Serch hynny, yn 2014, lansiodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol [ymchwiliad i CAMHS](#) oherwydd bod pryderon difrifol o hyd ynglŷn â'r ddarpariaeth iechyd meddwl i blant. Er enghraifft, dangosodd data Llywodraeth Cymru y cyfeiriwyd ato yn adroddiad yr Ymchwiliad fod £82.75 y pen wedi'i wario ar salwch meddwl cyffredinol o'i gymharu â £13.94 yn unig ar iechyd meddwl plant a'r glasoed y pen. Mae hynny'n awgrymu nad oedd plant yn cael eu blaenoriaethu o fewn cyllidebau iechyd.

Yn dilyn pryderon am y ddarpariaeth iechyd meddwl i blant, cytunodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad yn 2016 i gynnal ymchwiliad pellach. Yn yr adroddiad, [Cadernid meddwl: adroddiad ar y newid mawr sydd ei angen o ran cefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru \(2018\)](#). Dywedodd aelodau'r Pwyllgor nad oedd digon yn cael ei wneud i gefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Galwodd yr adroddiad am "newid mawr" yn y ddarpariaeth iechyd meddwl:

Yn ein barn ni, mae'r her frys bellach ym mhen blaen y llwybr gofal - lles emosiynol, gwydnwch ac ymyrraeth gynnar. Dylai mynd i'r afael â hyn fod yn flaenoriaeth genedlaethol ddynodedig i Lywodraeth Cymru.

Lynne Neagle AC, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (ar y pryd)

8. Datblygiadau polisi a deddfwriaethol

Gwnaeth yr adroddiad Cadernid Meddwl 27 o argymhellion; gellir crynhoi'r rhain yn fras iawn yn dair thema allweddol:

- Llywodraeth Cymru i wneud iechyd emosiynol a meddyliol yn flaenoriaeth genedlaethol, ac i sicrhau bod gwasanaethau yn derbyn adnoddau digonol.
- Pwyslais ar symud tuag at atal ac ymyrraeth gynnar.
- Cynyddu a gwella'r cydweithio rhwng gwasanaethau perthnasol fel iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau eiriolaeth, gwasanaethau ieuencid, yr heddlu ac eraill.

Nododd yr adroddiad rôl allweddol ysgolion o ran gwydnwch emosiynol a galwyd am ddulliau ysgol gyfan at iechyd meddwl da. Cafodd hynny ei ystyried gan Lywodraeth Cymru yn eu hymateb i'r adroddiad.

Un o'r prif feysydd y canolbwyntiodd adroddiad y Pwyllgor arno oedd y grŵp o bobl ifanc sydd angen cymorth iechyd meddwl, ond nad oes angen neu lle nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cymorth gan wasanaethau arbenigol. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy dynnu sylw at raglen [Law yn llaw dros Blant a Phobl Ifanc](#) T4CYP (rhaglen o dan arweiniad y GIG i wella'r cymorth iechyd meddwl sydd ar gael i blant a phobl ifanc) ac un o'i ffyrddau gwaith – cymorth cynnar a mwy o gefnogaeth. Mae'r rhaglen gwella gwasanaethau aml-asiantaeth hon yn ystyried ffyrdd o ail-lunio, ailfodelu ac ailffocysu'r gwasanaethau iechyd emosiynol a meddyliol a ddarperir i blant a phobl ifanc yn Nghymru, yn unol ag egwyddorion [Gofal Iechyd Darbodus](#).

Nododd T4CYP ei fod yn anelu at gwblhau'r fframwaith cymorth cynnar a mwy o gefnogaeth ac yn paratoi i'w roi ar waith erbyn mis Mawrth 2021. Adroddir bod gwerthusiad annibynnol o'r T4CYP yn garreg filltir allweddol yn y [Cynllun cyflawni ar gyfer iechyd meddwl](#) (2019-2022). Mynegwyd pryderon gan y [Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant](#) am natur byr dymor model cyllido T4CYP ac y gwnaed ceisiadau i Lywodraeth Cymru i egluro eu safbwynt hirdymor.

Mae pobl ifanc wedi bod yn ymgyrchu hefyd am welliannau mewn cymorth iechyd meddwl i blant. Yn 2016, cynhaliodd ymchwil gan bobl ifanc a oedd yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau (gan gynnwys Hafal a'r [Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant](#)) ac ysgrifennwyd adroddiad o'r enw '[Gwneud Synwyr: adroddiad gan bobl ifanc ar eu lles a'u hiechyd meddwl](#)' a gwaed nifer o argymhellion ar iechyd meddwl plant, gan gynnwys creu cymorth o ansawdd uchel a ddarperir gan weithwyr iechyd proffesiynol nad ydynt yn arbenigo mewn iechyd meddwl, gan wreiddio mecanweithiau ymdopi iach i'r cwricwlwm ac adrefnu systemau atgyfeirio CAMHS ac ymarfer o fewn CAMHS.

Ers ei sefydlu yn 2018, ymgysylltodd Senedd Ieuenctid Cymru â phobl ifanc i bennu ei flaenoriaethau. Eu prif flaenoriaeth oedd lles emosiynol a meddyliol pobl ifanc. Gwnaeth eu hadroddiad [Gadewch i ni Siarad am Iechyd Meddwl](#) ddeg o argymhellion, gan ganolbwyntio ar ddwy thema ganolog – gwybodaeth ac ymwybyddiaeth, ac ansawdd y gefnogaeth o ran iechyd meddwl plant a'r rhwystrau.

Canolbwyntiodd adroddiad beirniadol Comisiynydd Plant Cymru '[Dim Drws Anghywir](#)' ar bwysigrwydd iechyd meddwl plant a phwysleisiodd:

'mae plant a'u teuluoedd sy'n ceisio cymorth ar gyfer ystod o anghenion yn aml yn gweld bod yn rhaid iddynt lywio system gymhleth iawn, gallan nhw syrthio drwy'r bylchau lle nad oes gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion, neu fod ar restr aros am amser hir er mwyn cael gwybod eu bod nhw'n aros yn y ciw anghywir, neu wedi bod yn curo ar y drws anghywir gydol yr amser'.

O ganfyddiadau'r ymchwil, gwnaeth Comisiynydd Plant Cymru sawl argymhelliad ynglŷn â phwysigrwydd atal ac ymyrryd yn gynnar a phwysigrwydd hollbwysig gwasanaethau sy'n cael eu cydlynu'n well. Mae Comisiynydd Plant Cymru hefyd wedi hyrwyddo pwysigrwydd eiriolaeth statudol ar gyfer plant mewn lleoliadau gofal iechyd.

Gwnaed cynnydd yn y Senedd diwethaf, yn enwedig o ran darparu cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc drwy addysg. Mae mwy o arian wedi'i neilltuo ar gyfer cwnsela mewn ysgolion a rhaglen mewngymorth CAMHS. Yn ogystal, mae cyhoeddi [fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan](#), a'r diwygiad i'r Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu, wedi rhoi mwy o flaenoriaeth i iechyd meddwl plant. Disgrifiodd

Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd y diwygio arfaethedig ar y cwricwlwm yng Nghymru fel 'cyfle unwaith mewn cenhedlaeth' i ymgorffori llesiant i fywydau plant.

Mae [Cynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Meddwl](#) Llywodraeth Cymru yn rhestru nifer o gamau i'w bodloni ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc, sy'n dangos mwy o flaenoriaeth i blant.

Mae gwaith craffu Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ac Addysg y Senedd o Lywodraeth Cymru, yn ogystal ag ymgyrchu cyson gan blant, Comisiynydd Plant Cymru, y trydydd sector a gweithwyr iechyd ac addysg proffesiynol, yn sicr wedi bod yn ganolog wrth gyflawni'r newidiadau ar yr agenda hwn.

9. Newid i Blant: Ddim yn ddigon cyflym

Yn adroddiad dilynol Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Senedd, [Cadernid meddwl: dwy flynedd yn ddiweddarach \(2020\)](#), daeth y Pwyllgor i'r casgliad:

- Er bod cynnydd wedi'i wneud, nid yw'r newid wedi digwydd yn ddigon cyflym.
- Nid yw gwasanaethau'n cydweithio ddigon o hyd i fynd i'r afael â'r broblem.
- Mae'r pandemig Covid wedi effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc yn sylweddol, sy'n golygu bod gweithredu nawr hyd yn oed yn fwy hanfodol.

Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar yr argymhellion addysg a wnaed yn Cadernid Meddwl a'i adroddiadau dilynol, mae'r cynnydd a wnaed o ran y ddarpariaeth iechyd meddwl wedi'i feirniadu am fod yn arafach.

Ym mis Mawrth 2020, adroddiad [Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant](#), eu bod yn poeni bod darpariaeth cleifion mewnol a lleoliadau cymunedol i gleifion CAMHS yn gymharol is yng Nghymru o'i gymharu â gwledydd eraill ar draws y DU. Mae gan Gymru:

'y nifer isaf o seiciatryddion a'r ail nifer isaf o nyrsys a seicolegwyr iechyd meddwl cymunedol (6 a 8 fesul 100,000), sy'n awgrymu diffyg capasiti fel rheswm am ei gyfraddau gweithgaredd isel ymhlith cleifion mewnol a gofal yn y gymuned.'

Fel y pwysleisiwyd gan [Grŵp Ymgynghorol Arbenigol Iechyd Meddwl y Coleg Brenhinol](#).

'ar ben blaen' y llwybr gofal, mae angen pwyslais ychwanegol ar y diffyg darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc y mae angen cymorth mwy arbenigol arnynt, y rheini ag anghenion cymhleth, a'r rheini y mae angen cymorth arnynt mewn argyfwng. Mae gwasanaethau arbenigol wedi wynebu prinder staff profiadol ac adnoddau ers tro.

Dywedodd [Barnados Cymru](#) fod plant yn gorfod cyrraedd pwynt o argyfwng yn rhy aml cyn cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt a dywedodd [Hafal Cymru](#) fod angen mynediad ac amseroedd aros gwell ar gyfer plant ag anghenion aciwt yn ogystal â phroses bontio briodol i wasanaethau oedolion.

Mae'r ystadegau ar iechyd meddwl plant yn peri pryder:

- [Mae gan dri plentyn ym mhob ystafell ddosbarth](#) gyflwr iechyd meddwl y gellir ei ddiagnosio.
- Mae hanner yr holl broblemau iechyd meddwl wedi'u sefydlu erbyn 14 oed, gyda [lefelau straen, gorbryder a hunan-niweidio ar gynydd](#).
- [Mae hunanladdiad fel prif achos marwolaeth](#) ymhlith plant 15+ hefyd ar gynydd.

Mae'r dystiolaeth yn rymus ac yn peri pryder. Yn hanesyddol, mae'n gwbl annigonol bod diffyg cyllid ac adnoddau mewn gwasanaethau iechyd meddwl i blant yng Nghymru wedi parhau dros ddegawd ers i Adolygiad Archwilio Cymru dynnu sylw at y problemau hyn yn 2009.

Pandemig Covid-19

Ni all camau i gefnogi iechyd meddwl plant ddod yn ddigon buan. Mae'r pandemig Covid-19 wedi dwysau'r sialensiau o ran cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl tra bod iechyd meddwl plant wedi dirywio'r un pryd.

Ym mis Ebrill 2020, mynegodd [Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#) bryderon am effaith gorfforol, emosïynol a seicolegol y pandemig COVID-19 a'r cyfnodau clo a mesurau eraill ar blant. Mae'r diffygion sy'n bodoli'n barod yng ngwasanaethau iechyd meddwl plant yng Nghymru wedi dod yn amlycach, gydag iechyd meddwl nifer o blant yn cael eu heffeithio gan y pandemig (torri Erthygl 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).

Yn eu cyflwyniadau i Ymchwiliad Covid-19 Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru, mynegodd pediatryddion a seiciatryddion eu pryderon am ['niwed cyfochrog'](#) y pandemig ar blant. Nodwyd hefyd bod gwasanaethau i blant yn cael eu hailddosbarthu i wasanaethau oedolion i ymateb i'r pandemig. Roedd [Archwiliad Covid-19](#) Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru yn 2020, yn bendant ynghylch effaith negyddol y pandemig ar iechyd meddwl plant.

Mae Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant hefyd wedi [cyhoeddi data](#) sy'n dangos y bu cynnydd sylweddol yng nghyfran y gwelyau cleifion mewnol sy'n cael eu cymryd gan blant a phobl ifanc am resymau iechyd meddwl.

Mae'r cysylltiad rhwng y pandemig Covid a lles meddyliol pobl ifanc hefyd wedi'i danlinellu yn adroddiad Mind Cymru: [Yr argyfwng iechyd meddwl: Sut mae pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar ein hiechyd meddwl?](#). Canfu'r arolwg fod tri chwarter y bobl ifanc wedi dweud bod eu hiechyd meddwl yn waeth yn ystod misoedd cynnar y pandemig, tra bod traean y bobl ifanc a geisiodd gael cymorth wedi methu â gwneud hynny. Nododd ymchwil Mind Cymru hefyd y gwelwyd effaith negyddol amlycach ar bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig gwahanol a'r rhai sy'n byw mewn teuluoedd lle mae incwm yn isel neu'n ansicr. Mae'r cysylltiadau rhwng [tlodi plant ac iechyd meddwl](#) wedi'u cydnabod yn llawn. Mae'r pandemig wedi gwthio nifer o deuluoedd at dlodi ac ansicrwydd bwyd (torri Erthygl 27 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) a fydd yn cael effeithiau negyddol hirdymor ar iechyd meddwl plant.

Ceir dystiolaeth lawn o'r cysylltiadau rhwng [camdriniaeth a phlant yn datblygu salwch meddwl](#). [Adroddodd yr NSPCC](#) ar y galw digynsail ar draws y DU am eu gwasanaeth Child Line yn ystod y cyfnod clo gyda galwadau am gam-drin plant yn cynyddu 20%. Cynyddodd [adroddiadau o gam-drin corfforol](#) ymhlith plant 53% yn ystod y cyfnod clo cyntaf. At hynny, rhwng Mawrth a Mehefin 2020, cofnododd yr heddlu [259, 324 o droseddau'n ymwneud â cham-drin domestig](#) yng Nghymru a Lloegr. Roedd yr heriau o beidio â bod yn yr ysgol fel noddfa ddiogel rhag camdrinwyr posib yn y cartref wedi cadw rhai plant yn y dirgel gydag ychydig iawn o sgôp i gael gafaél am gymorth. Arweiniodd y ffaith bod plant yn treulio mwy o amser gartref at dreulio mwy o amser ar-lein, ac mae'r pwysau o orfod rhwydweithio ar-lein 24 awr y dydd, yn debygol o fod wedi arwain at fwy o [fwlio ar-lein](#). O bryder difrifol pellach, cynyddodd faint o amser y treuliodd oedolion ar-lein hefyd gyda'r [Internet Watch Foundation](#) yn adrodd bod 8.8 miliwn o bobl yn y DU wedi cael mynediad at ddelweddau o gam-drin plant yn rhywiol mewn un mis yn unig. Mae hynny'n brawf o dorri Erthygl 19 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ddifrifol.

Mae tystiolaeth bod plant yn fwy agored i drais, camdriniaeth ac ecsbloetio rhywiol yn cael ei ategu gan [ymchwil](#) a wnaed gan Rwydwaith Ewropeaidd yr Ombwdsmon (ENOC) yn 2021. Mae lefelau cynyddol camdriniaeth yn sicr wedi effeithio ar iechyd meddwl plant. Yn ôl [Colegau Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant](#), o ran 'Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, mae angen craffu parhaus i ddatblygu rhaglenni adfer ac ail-integreiddio 'sydd wedi'u llywio gan drawma' i sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn gweithio mewn ffordd gydgyssylltiedig, yn enwedig o ystyried y newidiadau a'r heriau i wasanaethau ieuencid yn ystod cyfnod y pandemig'. Mae hefyd yn ofyniad o dan Erthygl 39 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n canolbwyntio ar adferiad ac ail-integreiddiad seicolegol plentyn.

Mae'r materion eraill sy'n debygol o effeithio ar iechyd meddwl plant yn cynnwys oedi mewn achosion llys yn y system cyfiawnder ieuencid; (Ymchwil ENOC) ac, ar blant mewn sefydliadau y gwrthodwyd eu rhyddid am gyfnodau hir o amser, gyda mynediad prin at gyfreithwyr a gweithwyr cymdeithasol, yn aml heb reswm da. Mae hynny'n amlwg yn torri Erthygl 37 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Ar ddechrau'r pandemig, argymhellodd [Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#), y dylai llywodraethau ledled y byd archwilio atebion creadigol eraill i blant eu mwynhau o dan erthygl 31 sef yr hawl i chwarae, gorffwys, hamdden, adloniant a gweithgareddau diwylliannol ac artistig. Mae'r dystiolaeth bod prinder cyfleoedd i blant chwarae yn sgil bod yn gaeth i'w cartrefi ac wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl cyffredinol wedi'i gefnogi gan ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer Rhwydwaith Ewropeaidd yr Ombwdsmon (ENOC) yn 2021. Daeth ymchwil a gynhaliwyd gan [Graber et al.](#) i'r casgliad 'y gall chwarae fod yn un o'r meysydd pwysicaf i ganolbwyntio arno o ran iechyd a lles plant'. Argymhellodd [Chwarae Cymru](#) y dylid craffu ar unrhyw raglenni sy'n 'cefnogi iechyd corfforol a meddyliol plant er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys cyfleoedd ac amser ar gyfer chwarae hunangyfeiriedig'.

Nododd [ymchwil](#) yng Nghymru a gynhaliwyd gan Tyrie et al, a ganolbwyntiodd ar ddatblygiad plentyndod cynnar, fod y pandemig Covid-19 wedi cael effaith negyddol ar ddatblygiad gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol plant ifanc 0-5 oed. Mynegwyd pryderon cyson gan [Goleg Brenhinol y Seiciatryddion](#) ynglŷn ag iechyd meddwl amenedigol mamau yn cael eu heffeithio yn ystod y pandemig.

Yn ogystal, mynegodd [Coleg Brenhinol y Seiciatryddion](#) bryderon fod y pandemig wedi creu cyd-destun a fyddai'n debygol o gynyddu symptomau a'r risg o anhwylderau bwyta ac yn lleihau ffactorau sy'n diogelu yn erbyn anhwylderau bwyta ac yn gwaethgu'r rhwystrau i ofal.

Argyfwng Hinsawdd ac Iechyd Meddwl Plant

Ochr yn ochr ag argyfwng byd-eang Covid-19, mae plant hefyd yn byw yng nghyd-destun argyfwng hinsawdd byd-eang. Dangosodd [arolwg byd-eang](#) fod plant yn profi gofid, gorbryder a dicter cynyddol oherwydd eu pryderon am yr argyfwng hinsawdd a'r effaith negyddol ar eu planed fregus. Mewn [ymchwil](#) a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Ysgol Economeg Llundain, daeth cysylltiadau hefyd i'r amlwg rhwng dod i gysylltiad â llygredd aer a dirywiad mewn iechyd meddwl.

10. Symud ymlaen

Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd [£9.4 miliwn](#) ychwanegol yn cael ei neilltuo i adeiladu ar fuddsoddiadau blaenorol i wella gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod (CAMHS) yn ogystal â chefnogi dull ysgol gyfan i wella iechyd meddwl a lles mewn ysgolion. Fe wnaeth

Llywodraeth Cymru gynhyrchu [Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc](#) drwy'r platfform Hwb sy'n rhoi manylion amrywiaeth o adnoddau, gan gynnwys llinellau cymorth a gwefannau.

Yn dilyn etholiad y Senedd yn 2021, nododd y Llywodraeth Cymru newydd ei [Raglen Lywodraethu](#), a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Blaenoriaethu buddsoddi mewn iechyd meddwl.
- Blaenoriaethu ailgynllunio gwasanaethau i wella dulliau ataliol, mynd i'r afael â stigma a hyrwyddo dull dim drws anghywir o ddarparu cymorth iechyd meddwl.
- Cyflwyno gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod 'o fewn cyrraedd' mewn ysgolion ledled Cymru.

Mae trosi hynny'n ymarferol yn cymryd amser, ond efallai y bydd rhai yn dadlau nad yw'r newid wedi digwydd yn ddigon cyflym.

Yn hydref 2021, parhaodd tystiolaeth lafar a gyflwynwyd gan [Gomisiynydd Plant Cymru](#) i Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc ac Addysg y Senedd a [Mind Cymru](#) i Bwyllgor Iechyd y Senedd i gyflwyno pryderon difrifol ynglŷn ag amseroedd aros ar gyfer CAMHS. Mynegwyd pryderon hefyd gan [Grŵp Cyngorol Arbenigol ar Iechyd Meddwl y Coleg Brenhinol](#) ynglŷn â phroblemau capasiti difrifol o fewn y gwasanaethau Niwro-Ddatblygu a sut mae'n rhaid i'r gwasanaethau hyn allu bodloni'r galw nid yn unig i wasanaethau awtistig ond yr holl wasanaethau Niwro-Ddatblygu, beth bynnag bo'r diagnosis.

Mae [Grŵp Cyngorol Arbenigol ar Iechyd Meddwl y Coleg Brenhinol](#) yn galw am gynaliadwyedd y gweithlu niwro-ddatblygu a'r gweithlu iechyd meddwl i fabanod, plant a'u teuluoedd. Mae'r Grŵp yn adrodd bod gwasanaethau arbenigol wedi wynebu prinder staff ac adnoddau am rhy hir o lawer. Mae [Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru](#) wedi'i ddisgrifio fel 'cyfle go iawn i ail-fodelu'r ddarpariaeth bresennol ac i greu gwasanaethau cynaliadwy sy'n sicrhau bod pawb (gan gynnwys plant) yng Nghymru yn gallu cael mynediad at gymorth iechyd meddwl priodol'.

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn parhau i ddadlau'n gryf dros '[dull dim drws anghywir](#).' Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn argymhell y dylai gwasanaethau fod ar gael, yn hygyr, yn dderbyniol ac o ansawdd uchel. Mae angen buddsoddiad mewn gwasanaethau ond rhaid iddynt hefyd fod yn gydgysylltiedig ac yn barod i ymyrryd yn gynnar ac yn amserol. Mae pob plentyn yn haeddu gwasanaethau sy'n cydymffurfio â hawliau plant a mabwysiadu [dull hawliau plant](#).

Gweithiodd Comisiynydd Plant Cymru gyda Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc i ddatblygu [Fframwaith NEST/NYTH](#) i'w weithredu gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae Comisiynydd Plant Cymru o'r farn bod gan y fframwaith hwn y potensial i fynd i'r afael â'r 'Dull dim drws anghywir'. Serch hynny, bydd angen cymorth cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru a bydd yn monitro'r modd y caiff ei weithredu'n ofalus. Bydd y fframwaith ymyrraeth gynnar newydd yn cael ei gymhwyso gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn unig o 2022/23.

Ym mis Rhagfyr 2021, [cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 100 miliwn o gyllid](#) ar gyfer iechyd meddwl. Nid yw'n glir eto pa gyfran o'r cyllid hwn gaiff ei wario ar blant, nac ychwaith sut caiff ei ddefnyddio i gefnogi anghenion iechyd meddwl plant. Mae'n ofyniad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, bod cyfran y gwariant ar blant yn dryloyw ac y dylai'r gwariant ar blant fod cymaint â phosibl o'r adnoddau sydd ar gael (Erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Dylai unrhyw ddyraniad o arian cyhoeddus Llywodraeth Cymru fod yn amodol ar [Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant](#). Gellir ond gobeithio y bydd y buddsoddiad newydd hwn ochr yn ochr â rhoi polisiau ar

waith yn effeithiol yn fwy o gymorth i blant brofi eu hawliau i'r safonau iechyd meddwl uchaf y gellir eu cyrraedd (Erthygl 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).

Mae'n rhaid i Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Senedd barhau i graffu ar Lywodraeth Cymru. Bydd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn craffu'n fuan ar y DU sy'n wladwriaeth sy'n barti yn y Gwrandawriad Gwladwriaeth sy'n Barti fel rhan o broses adrodd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Edrychwn ymlaen at glywed argymhellion y ddau bwyllgor hwn ar iechyd meddwl plant.